Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

RWE

Coedwig **Brechfa** Forest

# Maes Parcio **Keepers** Car Park

## Coedwig **Brechfa** Forest

## Croeso i Orllewin Coedwig Brechfa

### Coedwig â'i gwreiddiau'n ddwfn mewn hanes

**Hyd at y Canol Oesoedd cynnar, roedd yr ardaloedd i'r gogledd o afon Cothi'n drwch o goed ac yn rhan o Goedwig Glyncothi, oedd yn hollbwysig wrth amddiffyn a chynnal annibyniaeth tywysogaeth y Deheubarth. Ar ôl i Edward I drechu'r Cymry'n derfynol ym 1283, daeth Glyncothi'n Goedwig Frenhinol. Diddymwyd Cyfraith Fforest ym 1640, a chafodd y rhan fwyaf o'r derw hynafol eu cwympo a'u clirio erbyn yr ail ganrif ar bymtheg. Heddiw, mae coedwig wahanol iawn wedi dychwelyd.**

Mae Coedwig Brechfa'n goedwig 6,500 hectar o faint a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru er budd pobl, bywyd gwyllt a'r sector cynhyrchu pren ac, yn fwy diweddar, er mwyn cynhyrchu ynni gwynt.

Wrth i chi gerdded o gwmpas Gorllewin Coedwig Brechfa, fe welwch dyrbinau yn y goedwig. Gall Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, a ddatblygwyd gan RWE, gynhyrchu digon o ynni adnewyddadwy i bweru'r hyn sy'n cyfateb i anghenion tua 38,000 o gartrefi Cymru.


## Welcome to Brechfa Forest West

### A forest with quite a pedigree

**Up to the early Middle Ages the areas north of the river Cothi were heavily wooded, forming the Forest of Glyncothi, vital to the defence and independence of the Welsh principality of Deheubarth. Following the final defeat of Wales by Edward I in 1283, Glyncothi became a Royal Forest. Forest Law was finally abolished in 1640, with most of the ancient oakwoods felled and cleared by the 17th century. Today a very different forest has returned.**

Brechfa Forest is a 6,500-hectare forest managed by Natural Resources Wales for the benefit of people, wildlife and timber production, and more recently, the production of wind energy.

As you walk around Brechfa Forest West you will see turbines within the forest. The Brechfa Forest West Wind Farm, developed by RWE, can generate enough renewable energy to power the equivalent needs of some 38,800 average Welsh homes.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023. OS 100019741
© Crown copyright and database rights 2023. OS 100019741

## Llwybr Gwynt a Dŵr

## Wind and Water Trail

**Anodd | Strenuous**

Pellter | Distance: 12m | 19.3km
Amser | Time: 7-8 awr | hours
Dringo | Climb: 529m / 1740tr|ft

**UCHAFBWYNTIAU:** **Clywed murmur Afon Pib ac Afon Marlais yn eu cymoedd hardd, a gweld nerth anhygoel y tyrbinau gwynt yn agos**. Mae hwn yn llwybr heriol oherwydd y pellter a'r esgyniad. Ydy'r llwybr hwn yn addas i chi? Mae angen lefel uchel o ffitrwydd ac esgidiau cerdded â gwadnau cadarn. Gall y tywydd newid yn gyflym yn yr ucheldir felly gwnewch yn siŵr fod gennych haenau gwrth-ddŵr a dillad cynnes yn eich sach gefn. Mae yna ffordd gynt yn ôl at y maes parcio sy'n defnyddio Llwybr Cyswllt y Fonesig Megan a ddangosir ar y map sy'n byrhau'r llwybr i 7½m/12.3km, ond sy'n hepgor cwm prydferth Afon Pib.


**HIGHLIGHTS:** **Experiencing the Afon Pib and Afon Marlais rivers and their valleys, plus getting up close to wind turbines and seeing them in action**. This is a challenging walk owing to its length and climb. Is this walk right for you? You need a high level of fitness and walking boots with a rugged tread. The weather can change quickly in the uplands so make sure you have waterproofs and warm clothing in your rucksack. There is a shortcut back to the car park using the Lady Megan Link Path shown on the map which shortens the route to 7½m/12.3km, but misses out the attractive Pib valley.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

uchder | height (m): 100, 200, 300
pellter | distance (km): 0–19



Pont dros Afon Pib | Bridge over River Pib




Llwybr cyswllt rhwng **Llwybr Cwm Marlais a Llwybr Gwynt a Dŵr**

Link path between **Marlais Valley Walk and Wind and Water Trail**

### Llwybr Cyswllt y Fonesig Megan | Lady Megan Link

Hyd y llwybr cyswllt: 1½m | 2.3km
Length of link path: 1½m | 2.3km

Mae'r llwybr hwn yn ddefnyddiol os nad ydych chi'n sicr bod gennych amser i gerdded **Llwybr Gwynt a Dŵr** i gyd, gan dorri'r daith i 7½ milltir / 12.3km.

This is a useful shortcut if you are worried about whether you have time to do the full **Wind and Water Trail**, making a walk of 7½ miles / 12.3km.


### Llwybr Cyswllt Dwyrain-Gorllewin | East - West Link

Hyd y llwybr cyswllt: 1¼m | 1.9km
Length of link path: 1¼m | 1.9km

Adeiladodd RWE y darn newydd hwn o'r llwybr a'r bont ar gyfer cerddwyr a marchogwyr i alluogi ymwelwyr o rannau mwy gorllewinol y goedwig i ymuno â'r **Llwybr Gwynt a Dŵr** a rhan ddwyreiniol y goedwig.

RWE built this new section of trail and the bridge for horse riders and walkers to allow visitors from further west in the forest to join up with the **Wind and Water Trail** and eastern part of the forest.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023. OS 100019741
© Crown copyright and database rights 2023. OS 100019741




## Llwybr Glan yr Afon Keepers

## Keepers Riverside Trail

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 2m | 3.2km
Amser | Time: 1 awr | hour
Dringo | Climb: 70m / 250tr|ft

**UCHAFBWYNTIAU:** **Byddwch yn croesi nifer o bontydd ar y llwybr coediog, hardd hwn sy'n glynu at lannau'r afon.**

**Ydy'r llwybr hwn yn addas i chi?** Mae angen lefel resymol o ffitrwydd. Argymhellir esgidiau cerdded a dillad gwrth-ddŵr. Gall llwybrau fod yn llithrig mewn tywydd gwlyb.

**HIGHLIGHTS:** **You will cross a number of bridges on this attractive woodland trail that is never very far from water.**

**Is this walk right for you?** Requires a reasonable level of fitness. Walking boots and waterproofs recommended. Paths can be slippery when wet.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

uchder | height (m): 100, 150, 200
pellter | distance (km): 0, 0.5, 1, 1.5, 2, 2.5, 3

## Ydych chi'n barod am yr her?

Croeso i Keepers, man cychwyn **Llwybr Gwynt a Dŵr**, sy'n mynd â chi drwy Goedwig Brechfa a'i fferm wynt ac ar hyd ei hafonydd. Neu rhowch gynnig ar **Lwybr Glan yr Afon Keepers** sy'n llawer byrrach ac yn mynd ar hyd Afon Marlais.

Hefyd yn Keepers, mae Pobl y Fforest – cwmni cymunedol nid-er-elw – a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio i ddarparu cyfleusterau ar gyfer Ysgol Goedwig.

## Are you up for the challenge?

Welcome to Keepers, the gateway to the challenging **Wind and Water Trail** which takes you through Brechfa Forest and its wind farm and along its rivers. Or try the much shorter **Keepers Riverside Trail** along the Afon Marlais.

Keepers is also where Pobl y Fforest – a "not for profit" community company – and Natural Resources Wales work together to provide facilities for Forest School.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Mae'r goedwig yn safle o ddefnydd cymysg, byddwch yn ymwybodol fod yna bosibilrwydd y dewch ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.

The forest is a mixed-use site, please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses or vehicles at any time.

parcio / parking
llwybrau beicio / bike trails
llwybrau cerdded / walking trails
lle picnic / picnic area

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government